Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Adroddiad gan y Cydbwyllgor Cadwraeth natur (JNCC), Peterborough Tachwedd 28th/29th 2018 |
| **Cyfeirnod y papur::** | NRW B 19.12 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Yr Athro Steve Ormerod, Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a benodwyd i JNCC |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Yr Athro Steve Ormerod, Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a benodwyd i JNCC |
| **Pwrpas y papur:** | Mae'r papur hwn yn atgoffa Aelodau ynglyn a gwmpas a phwrpas y JNCC tra hefyd yn adrodd yn ol ar cyfarfodydd ym mis Tachwedd 2018 |
| **Argymhelliad:** | I nodi |

1. Cwmpas a phwrpas JNCC
Er budd Aelodau newydd CNC, crëwyd y JNCC yn wreiddiol gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Daeth cyrff newydd â chyfrifoldeb am gadwraeth natur i fodolaeth yng Nghymru (CCW), yr Alban (Scottish Natural Heritage) a Lloegr (English Nature), gan felly ddisodli swyddogaethau blaenorol y Cyngor Gwarchod Natur. Yn sgil eu ffurfio, roedd angen sefydliad sy'n uno i gynghori Llywodraeth San Steffan a'r llywodraethau datganoledig ar faterion cadwraeth natur a oedd â dimensiwn Prydeinig a rhyngwladol. Mae'r un cyfrifoldebau yn parhau hyd heddiw.

   Mae corff llywodraethu'r JNCC yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n cynnwys chwe aelod annibynnol (gan gynnwys y Cadeirydd, yr Athro Chris Gilligan, pob un wedi'i benodi gan DEFRA), ag yn bosibl dau aelod (Cadeirydd ac un arall) a enwebwyd gan bob CNC, Natural England, Scottish Natural Heritage and the Council for Nature and the Countryside
http://jncc.defra.gov.uk/page-5349. Cefnogir CNC hefyd yng nghyfarfodydd y JNCC gan Mike Evans (Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth)

2. Adroddiad o weithdai / cyfarfodydd y JNCC, Tach 28th/29th

   2.1 Clywodd y JNCC adroddiad llafar gan is-grŵp Marine Protected Areas (MPA) ar ardaloedd morol gwarchodedig dwfn yn yr Alban, cyngor ar drydedd gyfran y cynigion ar barthau Parth Morol Gwarchodedig gan DEFRA ac ar aelodaeth o'r is-grŵp hwn. Cynigais gymryd lle Dr Madeline Havard ar y grŵp hwn yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

2.2  Cafwyd adroddiad llafar gan ARAC, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y risgiau a oedd yn gysylltiedig ar DU yn gadael UE, ond fel arall yn cofnodi bod y gydymffurfiaeth mewn cyflwr da.

2.3 Yr oedd grŵp y Prif Wyddonwyr yn adrodd ar gyfarfodydd gyda'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol lle y trafodwyd NBN Atlas, gwaith yn y dyfodol a chyllidebau.

2.4 Cafwyd diweddariad ar baratoadau'r JNCC ar gyfer gadael yr UE (e.e. Parodrwydd diwrnod 1, CITES;  ddata lloeren yr UE).  Mewn mannau eraill ar yr agenda, cafwyd trafodaeth hefyd ar sut y dylai'r JNCC geisio cefnogi'r gweinyddiaethau datganoledig i gyflawni eu rhwymedigaethau rhyngwladol ôl-BREXIT.

2.5  Clywodd y Pwyllgor adroddiad ar Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (2013-18), sy'n  gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau adrodd ar weithredu'r Gyfarwyddeb. Roedd yr adroddiad cyntaf (1994-2000) wedi disgrifio'r detholiad o ardaloedd cadwraeth arbennig, roedd yr ail yn darparu asesiad cyntaf o statws cadwraethol, a byddai'r trydydd adroddiad (sy'n ddyledus 2019) yn asesu unrhyw newid ymddangosiadol a'r rhesymau posib am hyn.